Hydref 2026

I: Holl gleifion cofrestredig Canolfan Iechyd Pont-y-pŵl sy'n byw yn y cyfeiriad hwn.

Annwyl glaf,

Ysgrifennais atoch yn ôl ym mis Chwefror 2026, i roi gwybod y byddai Canolfan Feddygol Pont-y-pŵl yn cael ei rheoli'n uniongyrchol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan o'r 1af Ebrill 2026 ymlaen, tra byddai'r Bwrdd Iechyd yn ystyried yr holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer darparu gwasanaethau Meddyg Teulu yn y dyfodol.

Rwy'n falch o gadarnhau, yn dilyn proses gaffael lwyddiannus, y bydd Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) yn cael eu darparu o Ganolfan Feddygol Pont-y-pŵl gan Dr Evans a'i Bartneriaid, o 1af Ebrill 2027 ymlaen, o dan enw practis newydd, Practis Grŵp Tŷ Afon.

Mae'r bartneriaeth newydd yn cynnwys pum partner sy'n Feddygon Teulu, partner sy'n Uwch Ymarferydd Nyrsio a Phartner Rheoli, pob un ohonynt yn gweithio yng Nghanolfan Feddygol Pont-y-pŵl ar hyn o bryd.

Ni fydd unrhyw newid i ble a sut rydych chi'n cael mynediad at eich gofal meddyg teulu, a bydd y gwasanaethau'n parhau i gael eu darparu o bob un o dri safle'r practis, h.y. prif feddygfa Pont-y-pŵl a'r safleoedd cangen yng Ngoytre a New Inn. Gallaf eich sicrhau nad oes angen i chi wneud unrhyw beth gan y byddwch yn aros wedi'ch cofrestru gyda Dr Evans a Phartneriaid ym Mhractis Grŵp Tŷ Afon.

Yn ystod y misoedd nesaf, bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio ochr yn ochr â Dr Evans a'i Bartneriaid i sicrhau trefniadau pontio llyfn i staff a chleifion.

Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â'r mater hwn, cysylltwch ag aelod o Dîm Contractio Gofal Sylfaenol y Bwrdd Iechyd ar 01495 241254/241246. Fodd bynnag, darllenwch y ddogfen Cwestiynau Cyffredin sydd wedi'i hatodi a allai ateb rhai cwestiynau sydd gennych.

Yr eiddoch yn gywir,



Lloyd Hambridge
Cyfarwyddwr yr Is-Adran
Cyfarwyddwr Is-adran Gofal Sylfaenol, Gwasanaethau Cymunedol, a Gofal Cymhleth a Hirdymor

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Is-adran Gofal Sylfaenol a Gwasanaethau Cymunedol
Tŷ Llanarth
Uned 1, Porth Trecelyn
Stryd y Bont
TRECELYN
NP115GH

Rhif Ffon: 01495 241200

Aneurin Bevan University Health Board
Primary Care and Community Services Division
Llanarth House
Unit 1, Newbridge Gateway
Bridge Street
NEWBRIDGE
NP115GH

Rhif ffôn 01495 241200